**Gwybodaeth Ychwanegol at y Cyfarfod Llawn**
**Information Further to Plenary**

*Cyhoeddir ymatebion yn yr iaith y'u darparwyd, gyda chyfieithiad Saesneg o ymatebion yn y Gymraeg.*
*Responses are published in the language in which they are provided, with a translation into English of responses provided in Welsh.*

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(4)0036(FM) a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, y Prif Weinidog, ar 8 Awst 2011**
**Information further to OAQ(4)0036(FM) issued by Carwyn Jones, the First Minister, on 8 August 2011**

**At Rhodri Glyn Thomas:**

Yn dilyn y llythyr a anfonais atoch ar 21 Mehefin, rwy'n ysgrifennu atoch eto ynghylch penderfyniad Trenau Arriva Cymru i beidio â stopio trenau ar gais ar rai o'i wasanaethau yng Ngorsafoedd Cydweli a Glan y Fferi. Dywedais y byddwn yn ysgrifennu i Drenau Arriva Cymru ac anfonais atoch gopi o'r llythyr a ysgrifennais at Mr Tim Bell, Rheolwr Gyfarwyddwr Trenau Arriva Cymru.

Erbyn hyn rwyf wedi cael ateb gan Mr Bell. Dywed y bydd Trenau Arriva Cymru yn trefnu bod trenau ychwanegol yn stopio yn y gorsafoedd hyn ar adegau prysur hwyr y prynhawn, ac mae hyn eisoes yn digwydd. Ar hyn o bryd mae ateb dros dro ar waith lle mae trên rhwng Manceinion ac Aberdaugleddau yn stopio yng Nghydweli am 17.36 ac yng Nglan y Fferi am 17.41.

O 12 Medi, bydd ateb parhaol ar waith pan fydd y gwasanaeth newydd rhwng Caerdydd Canolog ac Abergwaun yn stopio yng Nghydweli tua 17.15 ac yng Nglan y Fferi tua 17.20.

Rwy'n deall fod y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau wedi ysgrifennu atoch ar 28 Mehefin i gadarnhau bod Trenau Arriva Cymru'n bodloni ei Ofyniad Gwasanaeth Cyhoeddus o ran nifer y trenau sy'n stopio yn y gorsafoedd hyn, ac rwy'n siŵr y cytunwch, yn dilyn fy ngohebiaeth gyda Mr Bell, ei bod yn newyddion da fod y gwasanaeth bob awr ar adeg prysur hwyr y prynhawn wedi'i arfer.

**To Rhodri Glyn Thomas:**

I am writing further to my letter to you of 21 June about Arriva Trains Wales' decision to remove request stops on some of its services at Kidwelly and Ferryside Stations. I said that I would write to Arriva Trains Wales and I sent you a copy of the letter that I wrote to Mr Tim Bell, Managing Director, Arriva Trains Wales.

I have now had a reply from Mr Bell which states that Arriva Trains Wales will place an additional stop at these stations in the evening peak time, and this has already occurred. At the moment, there is an interim solution in place where a Manchester – Milford Haven train stops at Kidwelly and Ferryside at 17:36 and 17:41 respectively.

From 12 September, a permanent solution will be in place with the new Cardiff Central – Fishguard service stopping at Kidwelly and Ferryside at approximately 17:15 and 17:20 respectively.

I am aware that the Minister for Local Government and Communities wrote to you on 28 June to confirm that Arriva Trains Wales is meeting its Public Service Requirement (PSR) for the overall number of trains that stop at these stations, and I am sure you will agree that it is good news that, following my correspondence with Mr Bell, the hourly peak time evening service has been restored.